# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 21 Tachwedd 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Cyflawni Cyfrifoldebau ar gyfer Gogledd Cymru

**C10 Glyn Davies:** Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn bwriadu cyflawni ei gyfrifoldebau dros ogledd Cymru? (OAQ7898)

**Prif Weinidog Cymru:** Fel y nodais cyn hyn mewn ateb i gwestiynau diweddar ynghylch fy strategaeth bolisi ar gyfer gogledd Cymru, byddaf yn sicrhau y caiff y gogledd ei gynrychioli'n briodol, ac y gwelir iddo gael ei gynrychioli'n briodol, yn holl bolisïau'r Cynulliad. Byddaf yn gwneud pob ymdrech i ymweld â gogledd Cymru'n rheolaidd ac i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd Pwyllgor Rhanbarth Gogledd Cymru pan wahoddir fi. Byddaf yn sicrhau y caiff yr effeithiau ar ranbarthau Cymru eu hystyried ym mhob penderfyniad polisi.

Enghreifftiau o hynny yw penodi Brian Howes yn gadeirydd Cyllid Cymru ac Enid Rowlands yn gadeirydd y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru.

### Partneriaeth â Busnes yn cefnogi Datblygu Diwydiannol Cynhenid

**C11 William Graham:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch sut y mae Partneriaeth â Busnes yn cefnogi datblygu diwydiannolcynhenid? (WAQ7899)

**Prif Weinidog Cymru:** Yn ogystal â'r trafodaethau sydd yn codi oddi mewn i'r Cyngor Partneriaeth Busnes, sefydlwyd grwpiau ymgynghorol i gynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth datblygu economaidd cenedlaethol. Cynrychiolir dros 80 o gyrff ac unigolion ar y grwpiau hyn ac fe'u hanogir yn gryf i wneud sylwadau ar hyrwyddo busnes a diwydiant Cymreig yng Nghymru ac mae materion sydd yn ymwneud â'r flaenoriaeth gymharol a roddir i'r cymorth ar gyfer busnes cynhenid ac i fewnfuddsoddi'n cael eu cadw o dan sylw o hyd.

### Blaenoriaethau Polisi ar gyfer Canolbarth a Gogledd Cymru

**C12 Nick Bourne:** Beth yw'r blaenoriaethau polisi y mae Prif Weinidog Cymru yn eu cydgysylltu ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru? (OAQ7897)

**Prif Weinidog Cymru:** Byddaf yn sicrhau y caiff canolbarth a gorllewin Cymru eu cynrychioli'n briodol yn holl bolisïau'r Cynulliad, ac yn sicrhau y cymerir anghenion penodol holl ranbarthau Cymru i ystyriaeth pan wneir penderfyniadau. Parheir â'r polisi o annog Awdurdod Datblygu Cymru i roi blaenoriaeth i ddatblygu economaidd oddi wrth lain yr M4 yn y de ddwyrain a llain yr A55 yn y gogledd ddwyrain. Mae cyfran uchel o boblogaeth canolbarth a gorllewin Cymru'n byw yn yr ardal Amcan 1 a sydd â'r fantais o fod â statws ardal ddatblygu llawn.

### Gwella Proffil Rhyngwladol Cymru

**C13 John Griffiths:** Beth fyddai'r ffordd orau i Gymru wella ei phroffil rhyngwladol? (OAQ7911)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r Cynulliad yn gweithio gyda chyrff sector cyhoeddus eraill i ddatblygu dull cydlynol o ddatblygu a hybu proffil rhyngwladol Cymru. Yr ydym yn disgwyl datblygu rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer blynyddoedd y dyfodol, a fydd yn ceisio hyrwyddo Cymru dramor. Yr ydym hefyd yn datblygu deunydd hyrwyddo o ansawdd da, yn cynnwys CD-ROM a safle ar y

we, a gaiff ei ddosbarthu'n helaeth drwy lysgenadaethau, consyliaethau a swyddfeydd y Cyngor Prydeinig. Yr wyf yn awyddus i achub ar gyfleoedd eraill sydd yn codi yn ystod ymweliadau tramor gan gynrychiolwyr y Cynulliad ac i hyrwyddo ymweliadau â Chymru gan wleidyddion a swyddogion tramor dylanwadol.

**Dylanwadu ar Ddeddfwriaeth a wneir yn Senedd Ewrop**

**C14 Elin Jones:** Beth sydd yn cael ei wneud er mwyn galluogi'r Cynulliad i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth a wneir yn Senedd Ewrop? (OAQ7890)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel yn sefydlu cysylltiadau gweithio clòs ag Aelodau Senedd Ewrop o Gymru o bob plaid, a rhaid inni geisio gwneud y defnydd gorau ohonynt er mwyn hybu buddiannau Cymru. Cynrychiolir y Cynulliad hefyd ar Bwyllgor y Rhanbarthau sydd â rhan arbennig i'w chwarae yn y broses ddeddfu Ewropeaidd.

**Datblygu Polisïau ar gyfer Ynni Adnewyddadwy**

**C15 Cynog Dafis:** Sut y bydd Prif Weinidog Cymru yn sicrhau bod y Cabinet yn cydweithio i ddatblygu polisïau ar gyfer ynni adnewyddadwy? (OAQ7907)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae 'Rhoi Cymru'n Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru' yn disgrifio sut y byddwn yn gweithio'n effeithiol gyda'n gilydd i ddarparu polisïau ar gyfer Cymru. Mae'n seiliedig ar ewyllys da, cydymddiried a gweithdrefnau cytunedig sydd yn meithrin cydbenderfynu a chydgyfrifoldeb. Un o egwyddorion craidd y cytundeb hwnnw yw ein bod yn parhau â'n hymrwymiad i sicrhau bod twf economaidd yn amgylcheddol a chymdeithasol gynaliadwy.

Yn unol â'r ymrwymiad hwn, yr ydym wedi comisiynu astudiaeth yn ddiweddar o'r posibiliadau ar gyfer ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Defnyddir canfyddiadau'r astudiaeth a'i chasgliadau i oleuo'r gwaith o ddatblygu polisi ynni adnewyddadwy cryf ar gyfer Cymru. Mae 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' hefyd yn rhagweld datblygu strategaeth biomàs a fydd yn ymchwilio i'r posibiliadau i ffermwyr yng Nghymru amrywiaethu mewn sectorau amgen gan gynnwys cnydau ynni fel biomàs.

**Polisïau i Hwyluso Datblygu Cymunedol Effeithiol a Meithrin Gallu**

**C16 Peter Black:** Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn bwriadu cydlynu polisïau i hwyluso datblygu cymunedol effeithiol a meithrin gallu? (OAQ7900) [R]

**Prif Weinidog Cymru:** Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, sydd yn arwain wrth gydlynu polisïau ar draws y Cynulliad i ddarparu adfywio cymunedol.

Fel y gwyddoch, byddwn yn ymgynghori cyn hir ar y fframwaith polisi ar gyfer 'Rhoi Cymru'n Gyntaf', a chydnabyddir mor bwysig yw datblygu gallu mewn cymunedau a gofynnir am sylwadau ynghylch y modd y gellir cyflawni hynny orau. Darperir cyllid penodol o Ebrill 2001 ymlaen o'r gyllideb dibenion cymunedol er mwyn sicrhau y bydd meithrin ar allu a datblygu effeithiol mewn cymunedau difreintiedig yng Nghymru.

Yn yr un modd, mae rhaglenni'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn rhoi cymorth hefyd ar gyfer adfywio cymunedol a meithrin gallu. Mae mesurau penodol yn rhaglenni Amcanion 1, 2 a 3 i ymladd allgáu cymdeithasol, drwy gynorthwyo gweithredu yn y gymuned yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'r rhaglen Amcan 1, yn benodol, yn seilio'r dethol o ardaloedd ar gyfer datblygu economaidd cymunedol ar y cymunedau mwyaf difreintiedig yn y rhanbarth Amcan 1 gan ddefnyddio'r mynegrif amddifadedd lluosog newydd. Oherwydd hynny, mae rhywfaint o synergedd eisoes â rhaglenni fel 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf', i'r graddau ein bod hefyd yn bwriadu defnyddio'r mynegrif, ar y cyd â gwybodaeth leol, i ddethol ardaloedd 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf'.

**Ailfrandio Cymru**

**C17 Christine Gwyther:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi adroddiad ar y cynnydd ynghylch ailfrandio Cymru? (OAQ7885) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gweithredu 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'**

**C18 Jonathan Morgan**: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y cynnydd tuag at weithredu 'Rhoi Cymru'n Gyntaf? (OAQ7881) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Effaith y Gyllideb Ddiweddar ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

**C19 Pauline Jarman:** Pa bryd oedd y tro diwethaf i Brif Weinidog Cymru gyfarfod â Phrif Weinidog y Deyrnas Unedig i drafod effaith y Gyllideb ddiweddar ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ7905)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn cysylltu â'r Prif Weinidog yn rheolaidd ynghylch materion sydd yn effeithio ar Gymru.

**Dylanwadu ar Ddeddfwriaeth Sylfaenol yn San Steffan**

**C20 Jocelyn Davies:** Beth a wnaed i alluogi'r Cynulliad i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth sylfaenol yn San Steffan? (OAQ7889)

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i Rhodri Glyn Thomas mewn Cyfarfod Llawn ar 17 Hydref (OAQ7023).

**Tryloywder ac Atebolorwydd yng Nghabinet y Cynulliad**

**C21 Geraint Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar ei ymdrechion i hybu tryloywder ac atebolrwydd o fewn Cabinet y Cynulliad? (OAQ7893)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r Cabinet yn atebol i'r Cynulliad yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a'r Rheolau Sefydlog. Yr wyf wedi ymrwymo i egwyddorion gweithredu agored a thryloywder, a dyna pam y penderfynais gyhoeddi cofnodion cyfarfodydd y Cabinet.

**Rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y Deyrnas Unedig**

**C22 Janet Ryder:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn â rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y Deyrnas Unedig? (OAQ7904)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf fi a'm cydweithwyr yn cynnal trafodaethau'n aml â'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion eraill yn Whitehall ar y mater hwn, gan gynnwys rhai yng Nghydbwyllgor y Gweinidogion ac mewn grwpiau eraill, ac yn ddwyochrog.

**Amserlen ar gyfer Gweithredu 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'**

**C23 David Melding**: A wnaiff Prif Weinidog Cymru nodi amserlen ar gyfer gweithredu 'Rhoi Cymru'n Gyntaf? (OAQ7880) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Effaith y Bwriad i Ehangu'r Undeb Ewropeaidd**

**C24 Mick Bates:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar effaith y bwriad i ehangu'r Undeb Ewropeaidd ar Gymru? (OAQ7882)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r bwriad i ehangu'r Undeb Ewropeaidd yn creu heriau a chyfleoedd i Gymru. Yn ôl y cynnydd a wneir, gellid cael 12 aelod wladwriaeth newydd o fewn ychydig flynyddoedd, ac eraill yn disgwyl eu tro. Bydd hyn yn ymestyn y farchnad sengl i gynnwys dros 100 miliwn o gwsmeriaid newydd, gan roi hwb i dwf newydd ledled yr Undeb. Gallai ddod yn fwy anodd i Gymru gael mynediad i gronfeydd strwythurol ar ôl 2006, ond yr ydym mewn sefyllfa dda i fanteisio ar ein harbenigedd a datblygu cysylltiadau a fydd yn arwain at gyfleoedd newydd i fusnesau yng Nghymru.

**Cydlynu Polisïau ar gyfer Gogledd Cymru**

**C25 Gareth Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar gydlynu polisïau economaidd ar gyfer gogledd Cymru? (OAQ7903)

**Prif Weinidog Cymru:** Dymunaf allu sicrhau unrhyw un sydd yn byw yng ngogledd Cymru bod ein penderfyniadau'n cymryd safbwynt gogledd Cymru i ystyriaeth bob amser. (Mae hyn yr un mor berthnasol i unrhyw ranbarth arall yng Nghymru.) Gofynnais i'm swyddogion roi ystyriaeth lawn i'r safbwynt hwn bob amser wrth ystyried penderfyniadau neu gyngor. Wrth roi ystyriaeth lawn, golygir mwy na dim ond 'yr ydym wedi meddwl amdano a theimlasom nad oedd yn berthnasol'. Yr hyn yr wyf yn ei geisio yw mewnwelediad mwy dychmygus i'r modd y gwelid cyngor neu benderfyniadau ar y canlyniadau gan bobl gogledd Cymru. Yr wyf yn ceisio dull o weithredu sydd yn cyfateb yn agosach i faterion cydraddoldeb.

**Effaith Rhaglen Deddfwriaethol y DU ar Gynulliad Genedlaethol Cymru**

**C26 Brian Hancock:** Pa bryd oedd y tro diwethaf i Brif Weinidog Cymru gyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod effaith rhaglen ddeddfwriaethol y DU ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ7906)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r Ysgrifennydd Gwladol a minnau'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod amrediad eang o faterion gan gynnwys effaith rhaglen ddeddfwriaethol y DU ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Hybu Partneriaeth gyda Busnes yn Goetre, Sir Fynwy**

**C27 David Davies:** Pa fentrau y mae Prif Weinidog Cymru wedi eu cyflwyno i hybu partneriaeth gyda busnes yn ardal Goetre, Sir Fynwy? (OAQ7879)

**Prif Weinidog Cymru:** Dymunaf weld partneriaeth â busnesau ledled Cymru, a bydd y strategaeth datblygu economaidd cenedlaethol, a gylchredir ar gyfer ymgynghori yn y Flwyddyn Newydd, yn ddull pwysig i gyflawni hynny. Mae angen inni ymgynghori'n barhaus â busnes a diwydiant o bob rhan o Gymru os ydym i ddatblygu strategaeth sydd yn iawn i Gymru. Mae hyn, ynghyd â gwaith y Cyngor Partneriaeth Busnes a'r Fforymau Economaidd Rhanbarthol yn sicrhau bod modd ein cyrraedd a'n bod yn clywed pryderon busnes.

**Cynrychiolaeth Fenywaidd yng Nghabinet y Cynulliad**

**C28 Richard Edwards:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y gynrychiolaeth fenywaidd yng Nghabinet y Cynulliad? (WAQ7884) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Mesurau i Sicrhau nad effeithir ar Gartrefi yng Ngogledd Cymru gan Lifogydd yn y Dyfodol**

**C29 Alun Pugh:** Pa fesurau y bydd y Cynulliad yn eu cymryd i geisio sicrhau na fydd cartrefi yng ngogledd Cymru yn cael eu heffeithio gan lifogydd yn y dyfodol? (OAQ7910)

**Prif Weinidog Cymru:** Bydd angen i'r awdurdodau cyfrifol adolygu digwyddiadau diweddar o lifogydd er mwyn ystyried pa wersi y mae angen eu dysgu a pha fesurau amddiffyn ychwanegol a allai fod yn

briodol. Fodd bynnag, ni allwn atal llifogydd yn gyfan gwbl. Nod y Cynulliad yw lleihau'r perygl i bobl ac eiddo drwy annog darparu mesurau priodol i amddiffyn rhag llifogydd. Mae'r pwerau i roi mesurau o'r fath ar waith wedi eu hymddiried i Asiantaeth yr Amgylchedd, awdurdodau lleol a byrddau draeniad mewndirol. Mae'r Cynulliad yn darparu grantiau i'r awdurdodau gweithredu hynny tuag at gost gwaith cyfalaf amddiffyn rhag llifogydd a bydd yn gwneud hynny mewn perthynas ag unrhyw waith sydd yn angenrheidiol yng ngogledd Cymru. Mae set o dargedau uchel, y mae'r Cynulliad o'r farn y dylai awdurdodau gweithredu eu cyrraedd er mwyn cyflawni ei nodau ar amddiffyn rhag llifogydd, yn cael ei hadolygu yng ngoleuni atebion i'r ymgynghoriad yn gynharach eleni a'r llifogydd diweddar.

**Cynrychiolaeth Cymru yn Ewrop (Effaith ar Ddatblygu Polisïau yn y Cynulliad)**

**C30 Rhodri Glyn Thomas:** Sut mae cynrychiolaeth Cymru yn Ewrop wedi effeithio ar ddatblygu polisïau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ7901)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae dimensiwn Ewropeaidd polisi'r Cynulliad Cenedlaethol yn ehangu. Bu'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn bresennol mewn cyfarfod cyngor ym Mrwsel ar 9 Tachwedd, y tro cyntaf i Gymru gael ei chynrychioli mewn cyngor addysg ac ieuenctid. Bydd Gweinidogion eraill yn gwneud yr un fath yn y misoedd sydd i ddod. Mae ymwybyddiaeth gynyddol o Ewrop yn natblygiad polisi'r Cynulliad, a adlewyrchir yn y cynnydd yn y busnes rhwng Ewrop a'r Cynulliad.